

Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015

2015 dccc 3

Nodiadau Esboniadol

Violence against Women, Domestic Abuse and Sexual Violence (Wales) Act 2015

2015 anaw 3

Explanatory Notes

£6.00

DEDDF TRAIS YN ERBYN MENYWOD, CAM-DRIN DOMESTIG A THRAIS RHYWIOL (CYMRU) 2015

NODIADAU ESBONIADOL

CYFLWYNIAD

1. Mae'r Nodiadau Esboniadol hyn yn ymwneud â Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 a basiwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 10 Mawrth 2015 ac a gafodd y Cydsyniad Brenhinol ar 29 Ebrill 2015.

2. Maent wedi cael eu paratoi gan yr Adran Llywodraeth Leol a Chymunedau yn Llywodraeth Cymru er mwyn cynorthwyo'r sawl sy'n darllen y Ddeddf. Dylid darllen y Nodiadau Esboniadol ar y cyd â'r Ddeddf ond nid ydynt yn rhan ohoni. Ni fwriedir iddynt fod yn ddisgrifiad cynhwysfawr o'r Ddeddf. Pan ymddengys nad oes angen unrhyw esboniad na sylw ar adran unigol o'r Ddeddf, ni chaiff un ei roi.

CRYNODEB O'R DDEDDF

3. Yn gryno, mae'r Ddeddf yn gwneud darpariaeth:

   a) i'w gwneud yn ofynnol paratoi strategaethau cenedlaethol a lleol ar gyfer mynd i'r afael â thrais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol;
   b) i roi'r pŵer i Weinidogion Cymru ddyroddi canllawiau i gynorthwyo cyrff cyhoeddus penodol wrth iddynt gyflawni diben y Ddeddf;
   c) i ddiwygio Deddf Addysg 1996 er mwyn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gyhoeddi gwybodaeth ynghylch pa un a yw swyddogaethau addysg awdurdodau lleol yn cael eu harfer i hyrwyddo diben y Ddeddf, ac os ydynt, sut y maent yn gwneud hynny; a
   d) i ddarparu y bydd Gweinidogion Cymru yn penodi cynghorydd i roi cyngor a chynhorthwy arall i Weinidogion Cymru mewn perthynas â chyflawni diben y Ddeddf.

SYLWEBAETH AR ADRANNAU

Adran 1 - Diben y Ddeddf hon

4. Mae'r adran hon yn egluro diben y Ddeddf, sef gwella'r canlynol:

   - y trefniadau ar gyfer atal trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol;
   - y trefniadau ar gyfer amddiffyn dioddefwyr trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol; a
   - y cymorth i bobl yr effeithir arnynt gan drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

These notes refer to the Violence against Women, Domestic Abuse and Sexual Violence (Wales) Act 2015 (anaw 3) which received Royal Assent on 29 April 2015

VIOLENCE AGAINST WOMEN, DOMESTIC ABUSE AND SEXUAL VIOLENCE (WALES) ACT 2015

EXPLANATORY NOTES

INTRODUCTION

1. These Explanatory Notes relate to the Violence against Women, Domestic Abuse and Sexual Violence (Wales) Act 2015 which was passed by the National Assembly for Wales on 10 March 2015 and received Royal Assent on 29 April 2015.

2. They have been prepared by the Welsh Government's Department for Local Government and Communities in order to assist the reader of the Act. The Explanatory Notes should be read in conjunction with the Act but are not part of it. They are not meant to be a comprehensive description of the Act. Where an individual section of the Act does not seem to require any explanation or comment, none is given.

SUMMARY OF THE ACT

3. In summary, the Act makes provision to:

   a) require the production of national and local strategies for tackling gender-based violence, domestic abuse and sexual violence;
   b) provide the Welsh Ministers with the power to issue guidance to assist certain public bodies in contributing to the pursuit of the purpose of the Act;
   c) amend the Education Act 1996 to give the Welsh Ministers a power to make regulations to require local authorities to publish information about whether, and if so how, local authority education functions are being exercised to promote the purpose of the Act; and
   d) provide for the appointment by the Welsh Ministers of an adviser to give advice and other assistance to the Welsh Ministers in relation to achieving the purpose of the Act.

COMMENTARY ON SECTIONS

Section 1 – The purpose of this Act

4. The purpose of the Act is explained by this section, which is the improvement of:

   - arrangements for the prevention of gender-based violence, domestic abuse and sexual violence;
   - arrangements for protection of victims of gender-based violence, domestic abuse and sexual violence; and
   - the support for people affected by gender-based violence, domestic abuse and sexual violence.

5. Caiff amrywiol swyddogaethau'r cyrff cyhoeddus y darperir ar eu cyfer yn y Ddeddf hon eu cyfeirio at gyflawni'r diben hwn. Mae unrhyw gyfeiriad yn y Ddeddf (ac yn y nodiadau hyn) at ddiben y Ddeddf yn gyfeiriad at y diben hwn.

Adran 2 – Trais yn erbyn menywod a merched

6. Mae'r adran hon yn rhoi sylw i drais yn erbyn menywod a merched, drwy ei gwneud yn ofynnol i bersonau sy'n arfer swyddogaethau o dan y Ddeddf (a ddiffinnir yn adran 2(2) fel "swyddogaethau perthnasol") roi sylw i'r angen i ddileu neu leihau ffactorau sy'n cynyddu'r risg o drais yn erbyn menywod a merched, neu'n gwaethygu effaith trais o'r fath ar ddioddefwyr. Rhaid i berson sy'n arfer swyddogaethau perthnasol, fodd bynnag, roi sylw hefyd i'r holl faterion perthnasol eraill.

Adran 3 – Dyletswydd i baratoi, cyhoeddi ac adolygu strategaeth genedlaethol

7. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru baratoi a chyhoeddi strategaeth yn nodi sut y byddant yn gweithio tuag at gyflawni diben y Ddeddf, ac i adolygu'r strategaeth honno o dro i dro. Rhaid i'r strategaeth bennu amcanion y bydd yn ofynnol i Weinidogion Cymru gymryd pob cam rhesymol i'w cyflawni, wrth arfer eu swyddogaethau (gweler adran 4). Bydd y strategaeth genedlaethol yn nodi'r camau y mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu eu cymryd i fynd i'r afael â thrais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

8. Yn unol â diben y Ddeddf, rhaid i'r amcanion a bennir yn y strategaeth genedlaethol a'r camau a nodir i gyflawni'r amcanion hynny ganolbwyntio ar atal, amddiffyn a chynorthwyo, a byddant yn pennu'r camau y bydd Gweinidogion Cymru yn eu cymryd. Gallai amcanion a bennir mewn cysylltiad â threfniadau atal gynnwys ymgyrchoedd i gynyddu ymwybyddiaeth, mentrau addysgol neu raglenni sydd â'r nod o adsefydlu tramgwyddwyr. O ran trefniadau amddiffyn a chynorthwyo, gall amcanion gynnwys y camau y mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu eu cymryd i gefnogi'r gwaith o ganfod dioddefwyr yn gynnar, drwy weithredu rhaglen hyfforddi genedlaethol ar gyfer staff sy'n gweithio yn y sector cyhoeddus yng Nghymru (megis mewn awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol) ac sy'n gweithio'n uniongyrchol â'r cyhoedd.

9. Mae'r personau hynny y bydd Gweinidogion Cymru yn ymgynghori â hwy cyn cyhoeddi'r strategaeth genedlaethol gyntaf ac wrth adolygu'r strategaeth genedlaethol (gweler is-adran 7) yn debygol o gynnwys awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol: mae'n ofynnol i'r cyrff hyn roi sylw i'r strategaeth genedlaethol wrth baratoi ac adolygu eu strategaethau lleol (gweler adran 7). Yr ymgyngoreion tebygol eraill yw sefydliadau y gall eu gweithgareddau gyfrannu at gyflawni diben y Ddeddf; er enghraifft comisiynwyr heddlu a throseddu a darparwyr gwasanaethau prawf.

Adran 5 – Dyletswydd i baratoi strategaethau lleol

10. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol a Bwrdd Iechyd Lleol y mae unrhyw ran o'i ardal o fewn ardal yr awdurdod lleol baratoi a chyhoeddi strategaeth ("strategaeth leol") ar y cyd er mwyn cyfrannu at gyflawni diben y Ddeddf. Ar hyn o bryd ceir saith Bwrdd Iechyd Lleol yng Nghymru a'u rôl yw cynllunio, sicrhau a chyflenwi gwasanaethau gofal iechyd yn eu hardaloedd. Diffinnir "awdurdod lleol" yn adran 24(1), a'i ystyr yw cyngor sir neu fwrdeistref sirol yng Nghymru.

5. The various functions of public bodies provided for in the Act are directed towards the achievement of this purpose. Any reference in the Act (and these notes) to the purpose of the Act is a reference to this purpose.

Section 2 – Violence against women and girls

6. This section provides a focus on violence against women and girls by requiring persons exercising functions under the Act (defined in section 2(2) as "relevant functions"), to have regard to the need to remove or minimise factors which increase the risk, or exacerbate the impact on victims, of violence against women and girls. However, a person exercising relevant functions must also have regard to all other relevant matters.

Section 3 – Duty to prepare, publish and review a national strategy

7. The Welsh Ministers are required by this section to prepare, publish and periodically review a strategy setting out how they will work towards achieving the purpose of the Act. The strategy must specify objectives which the Welsh Ministers, in exercising their functions, will have to take all reasonable steps to achieve (see section 4). The national strategy will set out the steps the Welsh Ministers propose to take to tackle gender-based violence, domestic abuse and sexual violence.

8. In line with the purpose of the Act, the objectives specified in the national strategy and the actions identified to achieve those objectives must focus on prevention, protection and support and will specify actions that will be taken by the Welsh Ministers. Objectives specified in respect of prevention could include awareness raising campaigns, educational initiatives or programmes aimed at the rehabilitation of perpetrators. In respect of protection and support, objectives may cover actions proposed by the Welsh Ministers to support the early identification of victims through the implementation of a national training programme for staff working within the public sector in Wales (such as local authorities and Local Health Boards) who work directly with the public.

9. The persons consulted by the Welsh Ministers before publication of the first national strategy and in revising the national strategy (see subsection (7)) are likely to include local authorities and Local Health Boards: these bodies are required to have regard to the national strategy in preparing and reviewing their local strategy (see section 7). Other likely consultees are organisations whose activities are capable of contributing to the pursuit of the purpose of the Act; for example, police and crime commissioners and providers of probation services.

Section 5 – Duty to prepare local strategies

10. This section requires a local authority and a Local Health Board any part of whose area lies within the area of the local authority to jointly prepare and publish a strategy (a "local strategy") for contributing to the pursuit of the purpose of the Act. There are currently seven Local Health Boards in Wales and their role is to plan, secure and deliver healthcare services in their areas. "Local authority" is defined in section 24(1) and means the council of a county or county borough in Wales.

11. Gall strategaeth leol gynnwys darpariaeth mewn perthynas â chamau gweithredu penodol y mae'r awdurdod lleol a'r Bwrdd Iechyd Lleol perthnasol yn disgwyl iddynt gael eu cymryd, o fewn ardal yr awdurdod, gan unrhyw awdurdod cyhoeddus, unrhyw gorff gwirfoddol neu berson arall y gallai ei weithgareddau gyfrannu at gyflawni diben y Ddeddf. Er enghraifft, efallai y bydd darparwr gwasanaeth trydydd sector ym maes cam-drin domestig o fewn ardal awdurdod lleol yn dymuno cynnal ymgyrch i godi ymwybyddiaeth ar y cyd â'r awdurdod lleol a'r Bwrdd Iechyd Lleol perthnasol. Pe byddai pob parti'n gytûn, gellid cynnwys manylion y cam gweithredu hwn yn y strategaeth leol ar gyfer yr ardal honno.

Adran 7 – Materion y mae'n rhaid rhoi sylw iddynt wrth baratoi neu adolygu strategaeth leol

12. Mae adran 7(1) yn amlinellu nifer o faterion y mae'n rhaid i awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol roi sylw iddynt wrth baratoi neu adolygu strategaeth leol.

13. Mae hyn yn cynnwys yr asesiad diweddaraf o anghenion a baratowyd o dan adran 14 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. O dan adran 14 o'r Ddeddf honno mae'n ofynnol i awdurdod lleol a phob Bwrdd Iechyd Lleol y mae unrhyw ran o'i ardal o fewn ardal yr awdurdod lleol asesu, ar y cyd, yr anghenion o ran gofal a chymorth, cymorth i ofalwyr, a gwasanaethau ataliol yn ardal yr awdurdod. Gallai'r asesiad hwn ganfod anghenion gofal a chymorth o ganlyniad i drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol; byddai gwybodaeth o'r fath yn helpu i lywio'r gwaith o ddatblygu strategaethau lleol.

14. Mae paragraffau (c) i (e) o is-adran (1) yn cyfeirio at asesiadau strategol a baratoir yn unol â rheoliadau o dan adran 6 o Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998. Mae'r asesiadau hyn yn llywio cynnwys y strategaethau a baratoir ar gyfer ardal awdurdod lleol gan nifer o gyrff cyhoeddus (gan gynnwys awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol ac y cyfeirir atynt ar y cyd fel partneriaethau diogelwch cymunedol) o dan adran 6(1) o'r Ddeddf honno er mwyn lleihau trosedd ac anhrefn, aildroseddu a chamddefnyddio sylweddau yn ardal yr awdurdod lleol. Cynhelir asesiadau strategol sy'n ymwneud â lleihau trosedd ac anhrefn ac aildroseddu yn unol â rheoliadau 5 i 7 o Reoliadau Trosedd ac Anhrefn (Llunio a Gweithredu Strategaeth) (Cymru) 2007, ac asesiadau strategol sy'n ymwneud â mynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau yn unol â rheoliadau 5 i 7 o Reoliadau Camddefnyddio Sylweddau (Llunio a Gweithredu Strategaeth) (Cymru) 2007. Mae'r grŵp strategaeth a sefydlwyd gan y bartneriaeth diogelwch cymunedol o dan y rheoliadau perthnasol yn cynnal asesiadau strategol blynyddol ar gyfer ardal awdurdod lleol. Diben yr asesiad strategol yw cynorthwyo'r bartneriaeth diogelwch cymunedol i ddiwygio ei chynllun partneriaeth. Mae'r cynllun partneriaeth ar gyfer pob ardal awdurdod lleol yn nodi'r strategaethau a baratowyd ar gyfer yr ardal honno o dan adran 6(1) o Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998 ynghyd â gwybodaeth ynghylch sut y maent i'w rhoi ar waith. Mae'r grŵp strategaeth yn cynnwys cynrychiolwyr o awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol yn ogystal â chyrff cyhoeddus eraill sy'n ffurfio'r bartneriaeth diogelwch cymunedol y mae gofynion adran 6 o Ddeddf 1998 yn gymwys iddynt. Mae asesiadau strategol yn cynnwys dadansoddiad o lefelau a phatrymau aildroseddu, trosedd, anhrefn a chamddefnyddio sylweddau ar gyfer ardaloedd awdurdod lleol. Mae'n bosibl, felly, y bydd asesiadau o'r fath yn nodi lefelau a phatrymau o drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol, a allai helpu i lywio'r gwaith o ddatblygu strategaethau lleol. Mae'r asesiadau hefyd yn

11. A local strategy may include provision relating to specific action the relevant local authority and Local Health Board expect to be undertaken within the authority's area by any public authority, any voluntary organisation or other person whose activities are capable of contributing to the pursuit of the purpose of the Act. For example, a third sector domestic abuse service provider in a local authority area may wish to undertake a joint awareness raising campaign with the local authority and relevant Local Health Board. If all parties were in agreement, details of this action could be included in the local strategy for that area.

Section 7 – Matters to which regard must be had in preparing or reviewing a local strategy

12. Section 7(1) outlines a number of matters to which local authorities and Local Health Boards must have regard in preparing or reviewing a local strategy.

13. This includes the most recent needs assessment prepared under section 14 of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014. Section 14 of that Act requires a local authority and each Local Health Board any of whose area falls within the local authority's area to jointly assess the needs for care and support, support for carers and preventative services in the authority's area. This assessment could identify needs for care and support in consequence of gender-based violence, domestic abuse and sexual violence; such information would help inform the development of local strategies.

14. Paragraphs (c) to (e) of subsection (1) refer to strategic assessments prepared in accordance with regulations made under section 6 of the Crime and Disorder Act 1998. These assessments inform the content of strategies prepared for a local authority area by a number of public bodies (including local authorities and Local Health Boards and collectively referred to as community safety partnerships) under section 6(1) of that Act for the purpose of reducing crime and disorder, reoffending and substance abuse in the local authority area. Strategic assessments relating to reducing crime and disorder and re-offending are undertaken in accordance with regulations 5 to 7 of the Crime and Disorder (Formulation and Implementation of Strategy) (Wales) Regulations 2007 and strategic assessments relating to combating substance misuse are undertaken in accordance with regulations 5 to 7 of the Substance Misuse (Formulation and Implementation of Strategy) (Wales) Regulations 2007. Strategic assessments are undertaken annually for a local authority area by the strategy group established by the community safety partnership under the relevant regulations. The purpose of the strategic assessment is to assist the community safety partnership in revising their partnership plan. The partnership plan for each local authority area sets out the strategies prepared for that area under section 6(1) of the Crime and Disorder Act 1998 along with information relating to how they are to be implemented. The strategy group includes representatives from local authorities and Local Health Boards as well as other public bodies that make up the community safety partnership to which the requirements of section 6 of the 1998 Act apply. Strategic assessments include an analysis of the levels and patterns of re-offending, crime, disorder and substance misuse for local authority areas. These assessments may therefore identify levels and patterns of gender-based violence, domestic abuse and sexual violence, which could help inform the development of local strategies. The assessments also analyse any changes in the level and patterns of re-offending, crime, disorder and substance misuse and the reasons for such changes. This analysis

dadansoddi unrhyw newidiadau yn lefelau a phatrymau aildroseddu, trosedd, anhrefn a chamddefnyddio sylweddau a'r hyn sy'n gyfrifol am newidiadau o'r fath. Mae'r dadansoddiad hwn yn debygol o fod o gymorth wrth baratoi ac adolygu strategaethau lleol o dan adran 6 o Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru).

15. Os bydd Gweinidogion o'r farn bod yr asesiadau hyn yn annigonol er mwyn llywio'r gwaith o ddatblygu strategaethau lleol, cânt arfer y pŵer gwneud rheoliadau yn is-adran (2) i'w gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol neu Fwrdd Iechyd Lleol gynnal rhagor o asesiadau.

Adran 9 – Gwybodaeth am ddarpariaeth addysgol i hybu diben y Ddeddf hon

16. Mae'r adran hon yn mewnosod is-adran (6A) i adran 29 o Ddeddf Addysg 1996 ("Deddf 1996"). Mae adran 29 o Ddeddf 1996 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i'w gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol yng Nghymru ddarparu gwybodaeth i Weinidogion Cymru, neu gyhoeddi gwybodaeth ynghylch y ddarpariaeth addysg gynradd ac uwchradd yn eu hardaloedd. Bydd mewnosod is-adran (6A) i adran 29 o Ddeddf 1996 yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, i'w gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ddarparu gwybodaeth i'r cyhoedd ynghylch y camau a gymerodd awdurdodau i hyrwyddo diben y Ddeddf wrth arfer eu swyddogaethau addysg. Mae'r pŵer yn galluogi Gweinidogion Cymru i ragnodi'r wybodaeth sydd i'w chyhoeddi, pryd y'i cyhoeddir ac ar ba ffurf y'i cyhoeddir.

17. Mae'r adran hon hefyd yn diwygio adran 408 o Ddeddf 1996. Mae adran 408 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau ynghylch cyhoeddi gwybodaeth gan awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu a phenaethiaid ysgolion a gynhelir gan awdurdod lleol. Caiff y rheoliadau ei gwneud yn ofynnol cyhoeddi gwybodaeth yn gyffredinol, neu i berson rhagnodedig, ynghylch nifer o faterion gan gynnwys y cwricwlwm ar gyfer ysgolion a gynhelir a'r ddarpariaeth addysgol a gynigir gan ysgolion. Mae adran 9(3)(a) i (c) o'r Ddeddf yn ehangu'r rhestr o faterion y caniateir ei gwneud yn ofynnol, drwy reoliadau, ddarparu gwybodaeth amdanynt i gynnwys gwybodaeth ynghylch y ddarpariaeth addysg rhyw a'r datganiadau polisi a baratowyd gan ysgolion ynghylch y ddarpariaeth addysg rhyw. Mae adran 9(3)(d) yn mewnosod is-adran (8A) i adran 408 o Ddeddf 1996, a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru, wrth wneud rheoliadau o dan adran 408(1) o'r Ddeddf honno, roi sylw i ddymunoldeb bod gwybodaeth ar gael ynghylch a yw unrhyw rannau o'r cwricwlwm ac unrhyw ddarpariaeth addysgol mewn ysgolion a gynhelir yn hyrwyddo diben y Ddeddf ac, os ydynt, sut y maent yn gwneud hynny. Ni fyddai'r ddyletswydd yn yr is-adran (8A) newydd a fewnosodir i Ddeddf 1996 yn gymwys i ysgolion meithrin a gynhelir.

Adran 10 – Canllawiau i sefydliadau addysg bellach ac uwch

18. Mae'r adran hon yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddyroddi canllawiau i gyrff llywodraethu sefydliadau o fewn y sector addysg bellach yng Nghymru ynghylch sut y gallant gyfrannu at ddiben y Ddeddf. Mae sefydliad o fewn y sector addysg bellach os yw'n cael ei redeg gan gorfforaeth addysg bellach, yn sefydliad dynodedig o dan adran 28 o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 ("Deddf 1992") neu'n goleg chweched dosbarth.

is likely to assist in the preparation and review of local strategies under section 6 of the Violence against Women, Domestic Abuse and Sexual Violence (Wales) Act.

15. In the event that Ministers consider these assessments were inadequate for the purpose of informing the development of local strategies, they will be able to exercise the regulation power in subsection (2) to require a local authority or Local Health Board to carry out further assessments.

Section 9 – Information about educational provision to promote the purpose of this Act

16. This section inserts subsection (6A) into section 29 of the Education Act 1996 ("the 1996 Act"). Section 29 of the 1996 Act provide the Welsh Ministers with powers to make regulations to require local authorities in Wales to provide the Welsh Ministers with information, or publish information relating to the provision of primary and secondary education in their area. Inserting subsection (6A) into section 29 of the 1996 Act will enable the Welsh Ministers, by regulations, to require local authorities to provide information to the public on action taken to promote the purpose of the Act by authorities in the exercise of their education functions. The power enables the Welsh Ministers to prescribe the information to be published, when it will be published and how it will be published.

17. This section also amends section 408 of the 1996 Act. Section 408 provides the Welsh Ministers with power to make regulations regarding the publication of information by local authorities and the governing body and head teacher of local authority maintained schools. The regulations may require the publication of information generally, or to a prescribed person, about a number of matters including the curriculum for maintained schools and educational provision made by schools. Section 9(3)(a) to (c) of the Act expands the list of matters in respect of which information can be required by regulations to include information relating to the provision of sex education and the statements of policy prepared by schools with regard to the provision of sex education. Section 9(3)(d) inserts subsection (8A) into section 408 of the 1996 Act which will require the Welsh Ministers, in making regulations under section 408(1) of that Act, to have regard to the desirability of information being available about whether, and if so how, any parts of the curriculum and any educational provision at maintained schools promote the purpose of the Act. The duty contained in the new subsection (8A) inserted into the 1996 Act would not apply to maintained nursery schools.

Section 10 – Guidance to further and higher education institutions

18. This section enables the Welsh Ministers to issue guidance to the governing bodies of institutions in Wales within the further education sector on how they may contribute to the purpose of the Act. An institution is within the further education sector if it is conducted by a further education corporation, is an institution designated under section 28 of the Further and Higher Education Act 1992 ("the 1992 Act") or is a sixth form college.

19. Mae'r adran hefyd yn galluogi Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru i ddyroddi canllawiau i gyrff llywodraethu sefydliadau o fewn y sector addysg uwch yng Nghymru o ran sut y gall y cyrff gyfrannu at gyflawni diben y Ddeddf. Mae sefydliad o fewn y sector addysg uwch os yw'n brifysgol sy'n derbyn cymorth ariannol o dan adran 65 o Ddeddf 1992, yn sefydliad sy'n cael ei redeg gan gorfforaeth addysg uwch neu'n sefydliad y mae dynodiad a wnaed, neu sy'n cael effaith fel pe bai wedi ei wneud, o dan adran 129 o Ddeddf Diwygio Addysg 1988 yn cael effaith mewn perthynas ag ef (fel y'i diffinnir yn adran 72(3) o Ddeddf 1992).

20. Rhaid i gyrff llywodraethu sefydliadau yng Nghymru o fewn y sector addysg bellach ac uwch yng Nghymru roi sylw i ganllawiau a ddyroddir iddynt o dan yr adran hon. Mae sefydliad "yng Nghymru" os yw ei weithgareddau'n cael eu cynnal yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru. Ni fyddai'r adran hon yn gymwys i sefydliad sy'n darparu cwrs addysg penodol yng Nghymru, er enghraifft, pe bai gweithgareddau'r sefydliad yn cael eu cynnal yn Lloegr yn bennaf.

21. Mae is-adran (3) yn gosod cyfyngiadau ar gynnwys y canllawiau y caiff Gweinidogion Cymru a Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru eu dyroddi o dan yr adran hon. Ni chaiff y canllawiau fod ar gyfer sefydliad penodol nac ymwneud â'r materion a restrir yn (b) i (d).

Adran 11 – Dangosyddion cenedlaethol

22. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi dangosyddion y gellir eu defnyddio i fesur y cynnydd a wneir tuag at gyflawni diben y Ddeddf hon. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori ag unrhyw un y maent yn ei ystyried yn berthnasol cyn cyhoeddi'r dangosyddion. Mae'n debygol y byddai hyn yn cynnwys awdurdodau lleol, Byrddau Iechyd Lleol a sefydliadau trydydd sector sy'n gweithio yn y maes.

23. Er enghraifft, gallai nifer yr achosion o gam-drin domestig neu drosedd rywiol ledled Cymru, nifer yr unigolion mewn rhan benodol o Gymru sydd wedi eu hatgyfeirio at Gynadleddau Asesu Risg Amlasiantaethol neu nifer y cyrff cyhoeddus yng Nghymru sydd â pholisïau cam-drin domestig ar gyfer y gweithle fod yn ddangosyddion.

Adrannau 14 i 17 – Ystyr "awdurdod perthnasol"; pŵer i ddyroddi canllawiau statudol; ymgynghori a gweithdrefnau Cynulliad Cenedlaethol Cymru; dyletswydd i ddilyn canllawiau statudol

24. Mae adran 15(1) yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru ddyroddi canllawiau i awdurdodau perthnasol ar sut y dylai'r awdurdodau arfer eu swyddogaethau er mwyn cyfrannu at gyflawni diben y Ddeddf. Nodir ystyr "awdurdodau perthnasol" yn adran 14 fel awdurdod lleol, Bwrdd Iechyd Lleol (ceir diffiniad pellach o'r ddau yma yn adran 24), awdurdod tân ac achub yng Nghymru ac un o ymddiriedolaethau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol.

19. The section also enables the Higher Education Funding Council for Wales ("HEFCW") to issue guidance to the governing bodies of institutions in Wales within the higher education sector on how the bodies may contribute to the pursuit of the purpose of the Act. An institution is within the higher education sector if it is a university receiving financial support under section 65 of the 1992 Act, an institution conducted by a higher education corporation or is an institution in relation to which a designation made, or having effect as if made, under section 129 of the Education Reform Act 1988 has effect (as defined in section 72(3) of the 1992 Act).

20. The governing bodies of institutions in Wales within the further and higher education sector in Wales must have regard to guidance issued to them under this section. An institution is "in Wales" if its activities are carried on wholly or principally in Wales. The section would not be applicable, for example, to an institution delivering a particular course of education in Wales if the activities of the institution were principally carried out in England.

21. Subsection (3) imposes limits relevant to the content of the guidance that may be issued by the Welsh Ministers and HEFCW under this section. The guidance may not be directed at a particular institution or relate to the matters listed in (b) to (d).

Section 11 – National indicators

22. This section requires the Welsh Ministers to publish indicators which may be used to measure progress towards the achievement of the purpose of this Act. It requires the Welsh Ministers to consult with whoever they consider relevant before publishing the indicators. This would likely include local authorities, Local Health Boards and third sector organisations working in the sector.

23. An indicator could, for example, be the incidence of domestic abuse or sexual crime across Wales, the number of individuals in a particular part of Wales who have been referred to Multi Agency Risk Assessment Conferences (MARACs) or the number of public sector bodies in Wales who have domestic abuse work place policies.

Sections 14 to 17 – Meaning of "relevant authority"; power to issue statutory guidance; consultation and National Assembly for Wales procedures; duty to follow statutory guidance

24. Section 15(1) gives the Welsh Ministers the power to issue guidance to relevant authorities on how the authorities should exercise their functions with a view to contributing to the pursuit of the purpose of the Act. The meaning of 'relevant authority' is set in section 14 as a local authority, a Local Health Board (both are further defined in section 24), a fire and rescue authority in Wales and a National Health Service trust.

25. Mae adran 15(2) yn rhoi enghreifftiau o'r mathau o faterion y gallai'r canllawiau sôn amdanynt. Gallai'r canllawiau ymdrin â'r modd y gallai awdurdodau gynyddu ymwybyddiaeth o faterion sy'n ymwneud â diben y Ddeddf hon. Er enghraifft, gallai canllawiau ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ddynodi aelod o staff i fod yn eiriolwr, mewn ysgolion a lleoliadau eraill, dros fentrau sy'n berthnasol i ymdrin â thrais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol; gallai mentrau o'r fath gynnwys codi ymwybyddiaeth o ddiben y Ddeddf neu ddatblygu ffyrdd o wella arferion a safonau o ran y dulliau a ddefnyddir i gyflawni diben y Ddeddf. Gellid dyroddi canllawiau hefyd mewn perthynas â helpu i annog gweithwyr proffesiynol (megis staff meddygol damweiniau ac achosion brys) sy'n dod i gysylltiad rheolaidd â dioddefwyr trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol i holi dioddefwyr posibl ynghylch camdriniaeth neu drais mewn amgylchiadau penodol a, phan fo'n briodol, i weithredu i geisio lleihau dioddefaint a niwed. Yn ogystal, gallai canllawiau a ddyroddir o dan yr adran hon gefnogi'r gwaith o hyfforddi staff o fewn awdurdodau perthnasol. Ymgynghorodd Gweinidogion Cymru ar Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol ar drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol ar 23 Hydref 2014. Er enghraifft, gallai canllawiau gynorthwyo awdurdodau perthnasol i ddefnyddio'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol fel sylfaen ar gyfer hyfforddi staff yn y maes hwn, gan gynnwys sut i helpu eu staff i holi a gweithredu.

26. Mae adran 17 yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau perthnasol i ddilyn unrhyw ganllawiau a ddyroddir o dan adran 15 o'r Ddeddf. Nod y ddyletswydd hon yw sicrhau dull cyson ac effeithiol o fynd i'r afael â materion yn ymwneud â thrais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol ledled Cymru. Nid yw awdurdod perthnasol yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd i'r graddau y bo'n penderfynu, yn unol ag adran 17(2), ar bolisi amgen mewn perthynas â phwnc y canllawiau. O dan amgylchiadau o'r fath rhaid i'r awdurdod benderfynu ar ei bolisi amgen a dyroddi datganiad polisi yn nodi ei ddull amgen o fynd o'i chwmpas hi (gweler adran 18 am y gofynion sy'n gymwys i ddatganiadau o'r fath). Mae'r hyblygrwydd hwn yn caniatáu i awdurdod perthnasol geisio ffordd o ymdrin â'r mater sy'n wahanol, yn llwyr neu yn rhannol, i'r hyn a nodir yn y canllawiau statudol; gallai hynny ddigwydd, er enghraifft, pe bai polisi amgen a fabwysiedir gan awdurdod lleol yn darparu dull sy'n fwy cydnaws ag anghenion lleol.

27. Pan fo Gweinidogion Cymru o'r farn nad yw'r polisi amgen a gyhoeddwyd gan yr awdurdod perthnasol yn debygol o gyfrannu at ddiben y Ddeddf mae adran 19 yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddyroddi cyfarwyddyd i awdurdod perthnasol. Gallai'r cyfarwyddyd ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod perthnasol gymryd unrhyw gamau er mwyn cydymffurfio â chanllawiau a ddyroddwyd i'r awdurdod o dan adran 15. Rhaid i awdurdod perthnasol gydymffurfio â chyfarwyddyd a ddyroddwyd gan Weinidogion Cymru o dan yr adran hon.

25. Section 15(2) provides examples of the types of matters the guidance might address. The guidance could be about ways in which authorities could raise awareness of issues relating to the purpose of this Act. For example, guidance could require local authorities to designate a member of staff for the purpose of championing, in schools and other settings, initiatives relevant to tackling gender-based violence, domestic abuse and sexual violence; such initiatives could include raising awareness about the purpose of the Act or developing ways of improving practice and standards in the methods adopted to contribute to achieving the purpose of the Act. Guidance could also be issued in relation to providing support to encourage professionals (such as accident and emergency medical staff) who come into regular contact with victims of gender-based violence, domestic abuse and sexual violence to ask potential victims about abuse or violence in certain circumstances, and where appropriate, to act to seek to reduce suffering and harm. Additionally, the training of staff within relevant authorities could be supported by guidance issued under this section. The Welsh Ministers consulted on a National Training Framework on gender-based violence, domestic abuse and sexual violence on 23 October 2014. Guidance could for example assist relevant authorities to use the National Training Framework as a basis of staff training in this subject area, including on how to support their staff to ask and act.

26. Section 17 places a duty on relevant authorities to follow any guidance issued under section 15 of the Act. The aim of such a duty is to ensure a consistent and effective approach is taken to tackling the issues of gender-based violence, domestic abuse and sexual violence across Wales. A relevant authority is not subject to the duty in so far as it decides, in accordance with section 17(2), on an alternative policy in respect of the subject matter of the guidance. In such circumstances the authority must decide on its alternative policy and issue a policy statement setting out its alternative approach (see section 18 for requirements applicable in respect of such statements). This flexibility allows a relevant authority to pursue an alternative solution, in full or in part, to that set out in the statutory guidance; this could occur, for example, if an alternative policy adopted by a local authority provided a more tailored solution to address local needs.

27. Where the Welsh Ministers consider that the alternative policy published by the relevant authority is not likely to contribute to the purpose of the Act, section 19 enables the Welsh Ministers to issue a direction to a relevant authority. The direction may require the relevant authority to take any action in order to comply with guidance issued to the authority under section 15. A relevant authority must comply with a direction issued by the Welsh Ministers under this section.

Adrannau 20 i 23 – Cynghorydd Cenedlaethol; swyddogaethau'r Cynghorydd; cynllun blynyddol ac adroddiadau blynyddol; cyhoeddi adroddiadau

28. Mae adran 20 yn sefydlu swydd y Cynghorydd Cenedlaethol. Unigolyn a benodir drwy broses penodiadau cyhoeddus gan Weinidogion Cymru fydd y Cynghorydd, a bydd yn dal y swydd yn unol â thelerau a bennir gan y Gweinidogion. Mae'r adran hefyd yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru dalu treuliau, tâl cydnabyddiaeth, lwfansau a phensiynau mewn cysylltiad â'r Cynghorydd. Yn ogystal, caniateir i'r Gweinidogion roi i'r Cynghorydd y cymorth sydd ei angen arno i arfer ei swyddogaethau (er enghraifft, drwy ddyrannu staff Llywodraeth Cymru i'w gynorthwyo a darparu swyddfa ac offer ar ei gyfer).

29. Mae adran 21 yn nodi swyddogaethau'r Cynghorydd, gyda phob un ohonynt yn ymwneud â chyflawni diben y Ddeddf. Nid rôl o fewn y gwasanaeth sifil yw hon; rôl gynghorol statudol ydyw, a bydd y Cynghorydd yn cynghori ac yn cynorthwyo Gweinidogion Cymru o ran mynd i'r afael â thrais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Bydd gweithio gyda darparwyr gwasanaethau cyhoeddus ledled Cymru er mwyn hyrwyddo arfer gorau ar draws y sector cyhoeddus yn rhan o waith y Cynghorydd.

30. Bydd gan y Cynghorydd rôl allweddol hefyd yn y gwaith o adolygu'r camau a gymerir gan awdurdodau lleol, Byrddau Iechyd Lleol, awdurdodau tân ac achub ac Ymddiriedolaethau'r GIG o dan y dyletswyddau a osodir gan y Ddeddf, gan roi gwybod i Weinidogion Cymru am y canlyniadau. I'r perwyl hwnnw, mae adran 21 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol, Byrddau Iechyd Lleol, awdurdodau tân ac achub ac Ymddiriedolaethau'r GIG gydymffurfio â cheisiadau rhesymol am wybodaeth gan y Cynghorydd. Mae'r pŵer hwn yn galluogi'r Cynghorydd i gael mynediad at yr wybodaeth y mae'n ei hystyried yn angenrheidiol i'w lywio wrth arfer y swyddogaethau y sonnir amdanynt yn adran 21(1). Gallai gwybodaeth berthnasol at y dibenion hyn fod yn fanylion gweithdrefnau a phrosesau ar gyfer canfod dioddefwyr y gamdriniaeth a'r trais y mae'r Ddeddf yn ymwneud ag ef, ac ymateb iddynt; neu'n fanylion hyfforddiant perthnasol y mae staff wedi'i dderbyn at ddibenion mynd i'r afael â cham-drin a thrais.

31. Mae'r grŵp hwn o adrannau yn cyfeirio at "Cynghorydd Cenedlaethol" a "Cynghorydd Gweinidogol". Pan gyflwynwyd y Bil ar gyfer y Ddeddf hon i Gynulliad Cenedlaethol Cymru roedd yn cyfeirio at y swydd a sefydlir o dan 20 fel y "Cynghorydd Gweinidogol". Yng ngham 3 o'r broses o graffu ar y Bil yn y Cynulliad, cyflwynodd Llywodraeth Cymru welliannau i'r Bil er mwyn newid enw'r Cynghorydd i "Cynghorydd Cenedlaethol". Ni chafodd rhai o'r gwelliannau hynny eu cytuno gan y Cynulliad, felly ceir rhai cyfeiriadau at "Cynghorydd Gweinidogol" yn y Ddeddf o hyd.

32. O dan adran 22, mae gofyn i'r Cynghorydd baratoi cynllun blynyddol ac adroddiad blynyddol parthed arferiad ei swyddogaethau. Mae'r adran hon yn nodi'r hyn y dylid ei gynnwys yn y cynllun ac yn galluogi'r Cynghorydd i ymgynghori ag unrhyw un wrth ei baratoi. Mae angen cymeradwyaeth Gweinidogion Cymru ar y cynllun (a gellir ei ddiwygio, os yw'r Cynghorydd yn cytuno).

Sections 20-23 – National Adviser; functions of the Adviser; annual plan and annual report; publication of reports

28. Section 20 establishes the post of the National Adviser. The Adviser will be an individual appointed, via a public appointments process, by the Welsh Ministers and will hold office in accordance with terms specified by Ministers. The section also provides that the Welsh Ministers may pay expenses, remuneration, allowances and pensions in respect of the Adviser. Ministers will also be able to provide the Adviser with the support necessary for the Adviser to exercise his or her functions (by for example, allocating Welsh Government staff to assist the Adviser and providing office space and equipment).

29. Section 21 sets out the Adviser's functions, all of which are related to the pursuit of the purpose of the Act. This is not a civil service role; it is a statutory advisory role, and the Adviser will advise and assist the Welsh Ministers in tackling gender-based violence, domestic abuse and sexual violence. An element of the Adviser's role will involve working with public service providers across Wales to promote best practice across the public sector.

30. The Adviser will also have a key role in reviewing the actions being taken by local authorities, Local Health Boards, fire and rescue authorities and NHS Trusts under the duties imposed by the Act, and advising the Welsh Ministers of the findings. To that end, section 21 requires local authorities, Local Health Boards, fire and rescue authorities and NHS Trusts to comply with reasonable requests for information made by the Adviser. This power allows the Adviser to access the information he or she considers necessary to inform the exercise of the functions mentioned in section 21(1). Relevant information for these purposes could be details of procedures and processes in place to identify and respond to victims of the abuse and violence covered by the Act; or details of relevant training undertaken by staff for the purpose of tackling such abuse and violence.

31. This group of sections refers to both a "National Adviser" and "Ministerial Adviser". The Bill for this Act on introduction to the National Assembly for Wales referred to the office established under section 20 as the "Ministerial Adviser". At stage 3 of the Bill's scrutiny before the Assembly, the Welsh Government tabled amendments to the Bill to change the title of the Adviser to "National Adviser". Some of the amendments were not agreed by the Assembly, and therefore some references to "Ministerial Adviser" remain.

32. Under section 22, the Adviser is required to prepare an annual plan and annual report related to the exercise of the Adviser's functions. This section sets out what should be included in the plan and enables the Adviser to consult with anyone in its preparation. The plan requires the approval of the Welsh Ministers (which may be modified, with the Adviser's agreement).

33. Hefyd, rhaid i adroddiadau blynyddol y Cynghorydd gael eu cyflwyno i Weinidogion Cymru. Bydd hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i gael trosolwg llawn o waith y Cynghorydd Gweinidogol a sicrhau bod y rôl yn cyfrannu at gyflawni diben y Ddeddf.

34. O dan adran 23, rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi'r cynlluniau a'r adroddiadau blynyddol sy'n ofynnol o dan adran 22 o'r Ddeddf. Mae hyn er mwyn sicrhau bod gwybodaeth ynghylch arfer swyddogaethau'r Cynghorydd ar gael yn gyhoeddus. Bydd yr wybodaeth hon o ddiddordeb penodol i'r sefydliadau cyhoeddus a'r sefydliadau trydydd sector hynny sy'n gweithio ym maes trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

35. Mae adran 23 hefyd yn nodi pa adroddiadau eraill y mae gofyn i Weinidogion Cymru eu cyhoeddi. Rhaid cyhoeddi adroddiadau a grybwyllir yng nghynllun blynyddol y Cynghorydd; caniateir cyhoeddi adroddiadau eraill, nad ydynt wedi'u crybwyll yn y cynllun blynyddol, yn ôl disgresiwn Gweinidogion Cymru.

36. Mae'r ddyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi gwybodaeth o dan adran 23(1) yn un amodol. Mae is-adran (3) yn caniatáu i Weinidogion Cymru dynnu gwybodaeth o adroddiadau neu gynlluniau y mae'r Cynghorydd yn eu hanfon atynt cyn cyhoeddi'r dogfennau hynny. Er enghraifft, gallai gwybodaeth a gynhwysir mewn adroddiad gan y Cynghorydd olygu y gellid adnabod dioddefwr neu dramgwyddwr cam-drin domestig; gallai cyhoeddi'r wybodaeth honno wneud yr unigolyn yn agored i risg o niwed neu gallai ragfarnu achos llys sydd yn yr arfaeth.

Adran 24 – Dehongli

37. Mae'r adran hon yn nodi ystyr y termau diffiniedig a ddefnyddir yn y Ddeddf.

38. Mae'r adran hon yn diffinio'r termau "cam-drin", "cam-drin domestig", "trais ar sail rhywedd" a "trais rhywiol", ac mae'n gwneud hynny drwy ddisgrifio'r ymddygiadau sydd i gael eu hystyried yn gamdriniaeth neu'n drais at ddibenion y Ddeddf.

39. Mae'r Ddeddf yn darparu ei bod yn ofynnol, o ran cam-drin domestig, bod y sawl sy'n cam-drin yn "gysylltiedig" â'r dioddefwr. Diffinnir person sy'n "gysylltiedig" yn is-adrannau (2) i (4).

40. Mae hyn yn cynnwys, yn is-adran (2)(h), y rheini sydd mewn "perthynas bersonol agos" â'i gilydd, neu sydd wedi bod mewn perthynas o'r fath. Mae'r dull a ddefnyddir yn y Ddeddf hon yn wahanol i'r dull a ddefnyddir wrth ddiffinio "personau cysylltiedig" yn adran 58(2)(h) o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 ac "associated persons" yn adran 62(3)(a) o Ddeddf Cyfraith Teulu 1996 (fel y'i mewnosodir gan adran 4 o Ddeddf Trais Domestig, Troseddu a Dioddefwyr 2004). Yn y Deddfau hynny, rhaid i'r berthynas bersonol agos fod yn fod yn un sydd wedi "parhau am gyfnod sylweddol"("significant duration"). Nid yw hynny'n wir o dan y Ddeddf hon. Mae adran 24(2)(h) yn cwmpasu perthynas bersonol agos o unrhyw hyd, er mwyn adlewyrchu'r ffaith y gall trais fod yn bresennol yng nghamau cynnar iawn perthynas bersonol agos. Gall perthynas bersonol agos fodoli rhwng dau berson o'r un rhyw neu rhwng dau berson o rywiau gwahanol.

33. The Adviser's annual reports must also be submitted to the Welsh Ministers. This will enable the Welsh Ministers to have full oversight of the work of the Ministerial Adviser and ensure the role is contributing to the achievement of the purpose of the Act.

34. The annual plans and reports required under section 22 of the Act must be published by the Welsh Ministers under section 23. This is to ensure that information about the exercise of functions by the Adviser is publicly available. This information will be of particular interest to those public and third sector organisations working in the gender-based violence, domestic abuse and sexual violence sector.

35. Section 23 also sets out which other reports are required to be published by the Welsh Ministers. Reports mentioned in the Adviser's annual plan must be published; while any other reports not mentioned in the annual plan may be published at the Welsh Ministers' discretion.

36. The Welsh Ministers' duty to publish information under section 23(1) is subject to a qualification. Subsection (3) allows the Welsh Ministers to remove information in the reports or plans sent to them by the Adviser prior to publishing those documents. For example, information contained in a report produced by the Adviser could enable a victim or perpetrator of domestic abuse to be identified; publication of this information could place the individual at risk of harm or prejudice a pending criminal case.

Section 24 – Interpretation

37. This section sets out the meanings of the defined terms used in the Act.

38. This section defines the terms "abuse" "domestic abuse", "gender-based violence" and "sexual violence", and does so by describing the behaviours which are to be considered abusive or violent for the purpose of the Act.

39. The Act provides that domestic abuse requires the abuser to be "associated" to the victim. An "associated person" is defined in subsections (2) to (4).

40. This includes in subsection (2)(h) those who are in or have had an "intimate personal relationship". This Act differs from the approach taken in the definition of "associated persons" in section 58(2)(h) of the Housing (Wales) Act 2014 and section 62(3)(a) of the Family Law Act 1996 (as inserted by section 4 of the Domestic Violence, Crime and Victims Act 2004). In those Acts, the intimate personal relationship must be of a "significant duration". This is not the case under this Act. Section 24(2)(h) captures intimate personal relationships of any duration, to reflect that abuse may be present at the very early stages of an intimate personal relationship. An intimate personal relationship may exist whether the persons are the same or the opposite sex.

41. Diffinnir "cam-drin" i olygu cam-drin corfforol, rhywiol, emosiynol, seicolegol ac ariannol. Yn aml, mae dioddefwyr cam-drin domestig yn teimlo o dan fygythiad, gorfodaeth neu reolaeth. Gallai hyn fod o ganlyniad i drais corfforol gwirioneddol, er enghraifft, neu fygythiad ohono. Yn y naill achos neu'r llall byddai'r diffiniad o gam-drin yn ymestyn i ymddygiad o'r fath, gan y byddai'n gamdriniaeth gorfforol yn achos trais corfforol gwirioneddol, neu'n gamdriniaeth seicolegol yn achos bygythiadau o drais. Gallai tramgwyddwr hefyd rwystro dioddefwr, mewn modd afresymol, rhag cael mynediad i'w gyfrif banc er mwyn ei reoli. Byddai ymddygiad o'r fath yn gam-drin ariannol, ac felly'n dod o dan y diffiniad o gam-drin domestig. Fodd bynnag, ni fyddai ymyrraeth resymol â materion ariannol person arall yn cael ei hystyried yn gamdriniaeth. Ni fyddai cam-drin ariannol felly yn cwmpasu rhiant sy'n rheoli materion ariannol ei blentyn mewn modd rhesymol. Mae'n bosibl nad yw cam-drin yn cynnwys gweithredoedd uniongyrchol yn erbyn y dioddefwr bob amser.

42. Gallai cam-drin seicolegol ac emosiynol ddilyn o ymyrryd â phethau sy'n bwysig i ddioddefwr, neu mewn perthynas â'r pethau hynny. Gallai hynny gynnwys niwed bwriadol i gartref neu eiddo dioddefwr, neu ymddwyn yn dreisgar tuag at anifeiliaid anwes dioddefwr. Gallai beichiogrwydd dan orfod fod yn gam-drin seicolegol neu emosiynol, a chodi ohono, pan fo menyw neu ferch yn cael ei gorfodi neu ei thwyllo i gael rhyw heb ddulliau atal cenhedlu er mwyn ei gwneud yn feichiog. A gallai erthyliad dan orfod hefyd fod yn gam-drin o'r fath, a chodi ohono, pan fo menyw neu ferch yn cael ei gorfodi neu ei thwyllo i derfynu ei beichiogrwydd, pa un a yw'r weithdrefn derfynu ei hun yn gyfreithlon ai peidio.

43. Un enghraifft o drais ar sail rhywedd sy'n dod o fewn paragraff (a) o'r diffiniad yw'r hyn a elwir yn "drais ar sail anrhydedd", pan fo pobl yn dioddef trais, bygythiadau o drais neu aflonyddu yn sgil y canfyddiad eu bod wedi peri gwarth neu gywilydd i'r teulu neu'r gymuned pan fo'r gwarth neu'r cywilydd canfyddedig yn codi o werthoedd, credoau neu arferion sy'n ymwneud â rhywedd neu gyfeiriadedd rhywiol (megis credoau ynghylch cael perthynas â pherson o'r rhyw arall oddi allan i briodas neu gredoau ynghylch cyfunrhywiaeth).

44. Mae'r diffiniad o drais ar sail rhywedd at ddibenion y Ddeddf yn cynnwys aflonyddu ac anffurfio organau cenhedlu benywod; diffinnir y ddau yn is-adran (5).

45. Mae'r diffiniad o drais rhywiol at ddibenion y Ddeddf yn cynnwys camfanteisio rhywiol ac aflonyddu rhywiol, ac mae'r ddau wedi eu diffinio yn is-adran (5). Mae camfanteisio rhywiol yn cynnwys treisio, ymosod rhywiol a nifer o droseddau rhyw yn erbyn plant. Diffinnir "aflonyddu" yn is-adran (5) hefyd, ac mae'r diffiniad yn cynnwys aflonyddu ar ffurf siarad.

41. "Abuse" is defined to mean physical, sexual, emotional, psychological and financial abuse. Victims of domestic abuse often feel threatened, coerced or controlled. This may for example be as a result of threats of, or actual, physical violence. In either case, the definition of abuse would extend to such conduct by constituting physical abuse in the case of actual physical violence, or psychological abuse in the case of threats of violence. A perpetrator may also unreasonably withhold a victim's access to their bank account for the purpose of controlling them. Such behaviour would constitute financial abuse, and therefore captured by the definition of domestic abuse. However, reasonable intervention in the financial affairs of another person would not constitute abuse. Therefore, "financial abuse" would not extend to a parent who reasonably manages the financial affairs of their child. Abuse may not always include acts perpetrated directly against the victim.

42. Psychological and emotional abuse could follow from acts done to, or in respect of, things that are important to victims. This could include deliberate damage to a victim's home or belongings, or violence perpetrated against a victim's pets. Forced pregnancy could amount to, and arises from, psychological or emotional abuse, where a woman or girl is coerced or deceived into having sex without contraception for the purpose of making her pregnant. And forced abortion could also amount to, and arise from, such abuse, where a woman or girl is coerced or deceived into terminating her pregnancy, whether or not the termination procedure itself is lawful.

43. An example of gender-based violence falling within paragraph (a) of the definition is a type of so-called "honour-based violence", where people suffer violence, threats of violence or harassment as a result of the perception that they have caused disgrace or dishonour to the family or community where the perceived disgrace or dishonour arises from values, beliefs or customs relating to gender or sexual orientation (such as beliefs about relationships outside marriage with persons of the opposite sex or beliefs about homosexuality).

44. The definition of gender-based violence for the purposes of the Act includes harassment and female genital mutilation; both of which are defined in subsection (5).

45. The definition of sexual violence for the purposes of the Act includes sexual exploitation and sexual harassment, both of which are defined in subsection (5). Sexual exploitation includes rape, sexual assault and a number of child sex offences. "Harassment" is also defined in subsection (5) and includes speech amounting to harassment.

46. Atodir tabl sy'n crynhoi'r ymddygiadau isod:

Ymddygiadau		**Dioddefwr**	**Tramgwyddwr**
Trais ar sail Rhywedd	a. Yn codi o werthoedd, credoau neu arferion sy'n ymwneud â rhywedd neu gyfeiriadedd rhywiol	Unrhyw un	Unrhyw un
	b. Anffurfio organau cenhedlu benywod	Menywod a merched	Unrhyw un
	c. Priodas dan orfod	Unrhyw un	Unrhyw un
Cam-drin Domestig		Person sy'n gysylltiedig â'r tramgwyddwr (gweler adran 24(2))	Person sy'n gysylltiedig â'r dioddefwr (gweler adran 24(2))
Trais Rhywiol		Unrhyw un	Unrhyw un

COFNOD Y TRAFODION YNG NGHYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

47. Mae'r tabl a ganlyn yn nodi'r dyddiadau ar gyfer pob cam o daith y Ddeddf drwy Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Gellir gweld Cofnod y Trafodion a rhagor o wybodaeth am daith y Ddeddf ar wefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn: http://www.senedd.cynulliad.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=10028

Cam	**Dyddiad**
Cyflwynwyd	30 Mehefin 2014
Cam 1 – Dadl	25 Tachwedd 2014
Cam 2 Pwyllgor Craffu – ystyried y gwelliannau	22 Ionawr 2015
Cam 3 Cyfarfod Llawn - ystyried y gwelliannau	3 Mawrth 2015
Cam 4 Cymeradwywyd gan y Cynulliad	10 Mawrth 2015
Y Cydsyniad Brenhinol	29 Ebrill 2015

© Hawlfraint y Goron 2015

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

46. A summary table of the behaviours is attached below:

Behaviours		**Victim**	**Perpetrator**
Gender-based violence	a. Arising from values, beliefs or customs relating to gender or sexual orientation	Anyone	Anyone
	b. Female Genital Mutilation	Women and girls	Anyone
	c. Forced Marriage	Anyone	Anyone
Domestic Abuse		Person associated with the perpetrator (see section 24(2)).	Person associated with the victim (see section 24(2))
Sexual Violence		Anyone	Anyone

RECORD OF PROCEEDINGS IN NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

47. The following table sets out the dates for each stage of the Act's passage through the National Assembly for Wales. The Record of Proceedings and further information on the passage of this Act can be found on the National Assembly for Wales' website at: **http://www.senedd.assembly.wales/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=10028**

Stage	**Date**
Introduced	30 June 2014
Stage 1 – Debate	25 November 2014
Stage 2 Scrutiny Committee – consideration of amendments	22 January 2015
Stage 3 Plenary - consideration of amendments	3 March 2015
Stage 4 Approved by the Assembly	10 March 2015
Royal Assent	29 April 2015

© Crown copyright 2015

Printed and Published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

Cyhoeddwyd gan TSO (Y Llyfrfa) ac ar gael o:

Ar-lein
www.tsoshop.co.uk

Post, Ffôn, Ffacs ac E-bost
TSO
Blwch Post 29, Norwich, NR3 1GN
Archebion ffôn/Ymholiadau cyffredinol 0870 600 5522
Archebu trwy Linell Seneddol ar Lo-Call 0845 7 023474
Archebion ffacs:0870 600 5533
E-bost: customer.services@tso.co.uk
Ffôn Testun: 0870 240 3701

Y Llyfrfa
12 Bridge Street, Parliament Square,
Llundain SW1A 2JX
Archebion ffôn/Ymholiadau cyffredinol: 020 7219 3890
Archebion ffacs: 020 7219 3866
E-bost: bookshop@parliament.uk
Rhyngrwyd: http://www.bookshop.parliament.uk

TSO@Blackwell ac Asiantau Achrededig eraill

Published by TSO (The Stationery Office) and available from:

Online
www.tsoshop.co.uk

Mail, Telephone, Fax & E-mail
TSO
PO Box 29, Norwich NR3 1GN
General enquiries: 0870 600 5522
Order through the Parliamentary Hotline Lo-call 0845 7 023474
Fax orders: 0870 600 5533
Email: customer.services@tso.co.uk
Textphone: 0870 240 3701

The Houses of Parliament Shop
12 Bridge Street, Parliament Square
London SW1A 2JX
Telephone orders: 020 7219 3890
General enquiries: 020 7219 3890
Fax orders: 020 7219 3866
Email: bookshop@parliament.uk
Internet: http://www.bookshop.parliament.uk

TSO@Blackwell and other Accredited Agents

ISBN 978-0-348-11083-8

9 780348 110838